Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw: 15 Mai 2023

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw ar 15 Mai 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Yn bresennol

## Cyfarfodydd blaenorol

## Dyfodol y pwyllgor

## Tlodi bwyd

## Partneriaid ar dlodi bwyd



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol

- Mark Drakeford AS
- Jane Hutt AS (Cadeirydd)
- Rebecca Evans AS
- Jeremy Miles AS
- Hannah Blythyn AS
- Julie Morgan AS (rhan o'r cyfarfod)

## Mynychwyr allanol

- Susan Lloyd-Selby, Trussell Trust
- Cynghorydd Andrew Morgan, CLILC
- Naomi Alleyne, CLILC
- Ruth Marks, CLILC
- Abdul-Azim Ahmed, Cyngor Mwslimiaid Cymru
- Tom Lee, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
- Paul Butterworth, Siambrau Cymru (rhan o'r cyfarfod)

## Swyddogion

- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Rebecca Dunn, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Philippa Marsden, Cynghorydd Arbennig
- David Hooson, Cynghorydd Arbennig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Cyfiawnder

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
- Amelia John, Cyfarwyddwr Dros Dro Cymunedau a Threchu Tlodi
- Jo Salway, Cyfarwyddwr y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru
- Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
- Jonathan Price, Prif Economegydd
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Neil Buffin, Gwasanaethau Cyfreithiol
- Liz Lalley, Cyfarwyddwr Adfer ac Ailgychwyn
- Emma Spear, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (Cofnodion)
- James Burgess, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Costau Byw
- Heather O'Sullivan, Tîm Costau Byw
- David Willis, Pennaeth Trechu Tlodi

## Ymddiheuriadau

- Eluned Morgan AS
- Lynne Neagle AS

# Eitem 1: Cyflwyniad a chofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Croesawodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yr holl bartneriaid i'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Gweinidog Paul Butterworth o Siambrau Cymru i'r cyfarfod hefyd, a diolchodd i Paul Slevin am ei gyfraniad i'r Pwyllgor.

1.3 Nododd y Gweinidog ffocws y cyfarfod, a fyddai'n ymwneud â thlodi bwyd. Roedd prisiau bwyd wedi bod yn cyfrannu'n fawr at chwyddiant, a oedd yn parhau'n uchel, ac roedd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar aelwydydd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd.

1.4 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar gofnodion 27 Mawrth.

## Eitem 2: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y Pwyllgor hwn a gwaith y Grŵp Arbenigol

2.1 Rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddiweddariad i bartneriaid ar ddyfodol yr Is-bwyllgor a'r Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw.

2.2 Nodwyd bod yr Is-bwyllgor wedi bod yn hynod werthfawr ers ei gyflwyno, gan ddod â Gweinidogion ynghyd i gydlynu camau gweithredu ar draws partneriaid cyflawni. Yn gysylltiedig â hyn oedd y cyfle i glywed gan bartneriaid a siaradwyr arbenigol eraill am sut yr effeithiodd yr argyfwng ar bobl a sefydliadau ar lawr gwlad. Rhoddodd hyn fewnwelediadau amhrisiadwy.

2.3 Roedd yn amlwg nad oedd yr argyfwng costau byw ar ben o bell ffordd, felly byddai'r cyfarfodydd yn parhau drwy gydol tymor yr haf, ond yn llai aml o ystyried y pwysau amser ar ddyddiaduron. Byddai gweinidogion yn cyfarfod eto ym mis Mehefin, ac yna'n cael cyfarfod pellach gyda phartneriaid ym mis Gorffennaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2.4 Byddai brîff gwylio yn cael ei gynnal drwy gydol toriad yr haf, cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch cyfarfodydd yn y dyfodol, yn dibynnu ar y sefyllfa ar y pryd.

2.5 Diolchodd y Gweinidog i'r holl bartneriaid am roi eu hymrwymiad a'u hamser parhaus i fynychu a chyfrannu.

2.6 O ran y Grŵp Arbenigol, byddai Gweinidogion a rhai partneriaid yn cyfarfod â'r Grŵp ar 24 Mai ac eto ar 8 Mehefin, cyn cyflwyno argymhellion terfynol i Lywodraeth Cymru.

2.7 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

## Eitem 3: Cyflwyniad ar dlodi bwyd yng Nghymru gan Susan Lloyd-Selby, Trussell Trust

3.1 Gwahoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip Susan Lloyd-Selby o Trussell Trust i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am dlodi bwyd yng Nghymru.

3.2 Adroddwyd bod 24,000 o deuluoedd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 wedi cael eu gorfodi i droi at un o'r 114 o fanciau bwyd yn rhwydwaith y Trussell Trust yng Nghymru am y tro cyntaf. Roedd hyn cynrychioli cynnydd o 37% yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio banciau bwyd am y tro cyntaf o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22. Roedd y teuluoedd hyn yn gyfanswm o dros 56,000 o bobl.

3.3 Nodwyd bod darparu taliadau costau byw wedi cyd-fynd â’r gostyngiad mewn anghenion yng Nghymru, ond roedd hyn yn fyrhoedlog, ac roedd yr holl genhedloedd a rhanbarthau wedi gweld cynnydd mewn angen eleni, a'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd oedolion sengl a rhieni sengl, aelwydydd â phlant, gofalwyr di-dâl a phobl ag afiechyd neu anabledd neu nodwedd warchodedig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

arall.

3.4 Roedd yn amlwg bod banciau bwyd yn gweld galw cynyddol a chyfnodau caletach ledled Cymru, gyda thystiolaeth fod y banciau bwyd yn gweld pobl a oedd yn llwgu, heb ddim gwres, neu heb fynediad at gyflenwadau sylfaenol fel tegellau a microdonnau. Roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch a ddylid darparu parseli nad oes angen eu coginio neu nad oes angen eu coginio llawer.

3.5 O ran rhoddion yn ateb y galw, bu cynnydd mewn rhoddion o'i gymharu â'r llynedd, ond gallai ateb cynnydd pellach yn y galw fod yn broblem o gofio bod pob banc bwyd wedi darparu mwy o stoc nag a dderbyniwyd mewn rhoddion rhwng Ionawr ac Ebrill, ac roedd bron pob banc bwyd yn prynu bwyd.

3.6 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod arian grant brys ar gael i fanciau bwyd i brynu bwyd ac i gynyddu nifer y staff gweinyddol, ond nid oedd yn sicr a fyddai hyn yn ddigon pe bai chwyddiant bwyd yn parhau i godi ar ei gyflymder presennol.

3.7 Awgrymodd arolwg barn gan YouGov, ar ran y Trussell Trust, fod y cyhoedd yn fwyfwy pryderus am faterion yn ymwneud â thlodi a newyn yn y DU.

3.8 Mewn ymateb i'r bleidlais, roedd mwyafrif o'r farn na ddylai pobl fod angen banciau bwyd yn y DU, gyda mwyafrif cryf yn cytuno y dylai pawb allu prynu digon o fwyd iddyn nhw eu hunain a'u teulu.

3.9 Roedd y cyhoedd hefyd yn gytûn na ellid datrys y broblem tlodi na newyn gan ddefnyddio banciau bwyd, gan nad oedd y rhain yn datrys achosion sylfaenol tlodi. Dylai sicrhau bod gan bawb ddigon o arian ar gyfer anghenion sylfaenol fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y DU

3.10 I'r perwyl hwnnw, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi lansio ei hymgyrch ddiweddaraf, 'Guarantee Our Essentials'. Roedd hyn yn cynnwys rhai 'gofynion'

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

polisi allweddol ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

3.11 Byddai angen ymgyrchu er mwyn i Lywodraeth y DU ddarparu ymrwymiad hirdymor y byddai cyfraddau budd-daliadau bob amser yn ddigonol i bobl allu fforddio'r hanfodion. Felly, roedd yr Ymddiriedolaeth yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgorfforri'r egwyddor yn y gyfraith y dylai Credyd Cynhwysol o leiaf amddiffyn pobl rhag mynd heb hanfodion.

3.12 Yn ogystal, roedd gan gymorth argyfwng lleol effeithiol rôl i'w chwarae hefyd a dylai Llywodraeth y DU nodi strategaeth hirdymor ar gyfer cymorth argyfwng lleol ac ymrwymo i setliad ariannu aml-flwyddyn.

3.13 O ran ‘gofynion’ Llywodraeth Cymru, hoffai’r Ymddiriedolaeth weld cynllun penodol i Gymru yn cael ei ddatblygu i leihau ac atal yr angen am gymorth bwyd brys.

3.14 Roedd galwad i weithredu argymhellion Sefydliad Bevan ar ddull cyffredin o ymdrin â budd-daliadau Cymru, ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Gwarant Hanfodion gan Lywodraeth y DU.

3.15 Nododd yr Is-bwyllgor fod y defnydd o fanciau bwyd yn bryderus o uchel yng Nghymru, ond ei fod yn cynyddu ledled y DU ac yn enwedig yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.

3.16 Nodwyd fod banciau bwyd yn Rhondda Cynon Taf yn nodi cynnydd o 15% yn y defnydd, ac roedd y swm a wariwyd ar brynu cynnyrch yn cynyddu'n sylweddol gydag ofnau y gallai'r galw fynd y tu hwnt i'r cyflenwad mewn rhai ardaloedd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

3.17 Gwnaed y pwynt bod gwasanaethau cynghori a'r gwaith 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' yn parhau mewn banciau bwyd ledled Cymru, gyda buddsoddiad o £1.7 miliwn gan y Trussell Trust, ond roedd bob amser mwy y gellid ei wneud.

3.18 Roedd yn hanfodol bod Awdurdodau Lleol yn cydweithio i gyfeirio pobl at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wasanaethau drwy eu gwefannau, ac i gydweithio ar ddarparu taliadau awtomatig lle bynnag y bo modd i'r rhai mewn angen ac yn ehangach o ran cyfuno cynigion ledled Cymru.

3.19 Nododd yr Is-bwyllgor y gwaith da sy'n parhau rhwng rhwydweithiau ffydd, hybiau cynnes a gwybodaeth sy'n cael ei rhannu drwy rwydwaith y Cyngor Gwirfoddol Sirol ac y byddai'r rhwydwaith cymdeithas sifil yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu digon o Gredyd Cynhwysol i dalu am yr hanfodion.

3.20 Diolchodd yr Is-bwyllgor i Susan Lloyd-Selby am y cyflwyniad ac i'r partneriaid am eu cyfraniadau.

## Eitem 4: Diweddariad gan bartneriaid ar dlodi bwyd

4.1 Gwahoddodd y Gweinidog bartneriaid cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf gan eu sefydliadau priodol am y sefyllfa tlodi bwyd.

4.2 Tynnwyd sylw at y gwaith da sy'n mynd rhagddo mewn ysgolion fel rhywbeth cadarnhaol, gyda'r fenter 'Bocs Bwyd Mawr' a chlybiau bwyd amrywiol ar gyfer y rhai a oedd ar fin bod angen cymorth. Rhagwelwyd y byddai nifer y teuluoedd hyn yn cynyddu a'i fod yn ystadegyn cudd ar hyn o bryd.

4.3 Cafwyd adborth gan y gymuned Fwslimaidd y byddai'r galw am fathau penodol o eitemau bwyd yn newid, i gael cynhwysion rhatach a oedd â bywyd silff hirach. Roedd hyn yn peri pryder o ystyried y nod o ddarparu diet cytbwys a maethlon drwy gymorth bwyd, ond nid yn annisgwyl o ystyried ymdrech yr archfarchnadoedd i leihau eu gwastraff.

4.4 Yn ogystal, roedd materion logistaidd o ran storio bwyd a'r gweithlu oedd ei angen i gludo a storio symiau mawr o gyflenwadau ffres.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.5 Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £5.9 miliwn yn 2022-23 i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i oresgyn rhwystrau i gael gafael ar fwyd, storio a dosbarthu cyflenwadau ychwanegol o fwyd o ansawdd uchel, gan gynnwys cyflenwad da o fwyd dros ben. Roedd hefyd wedi eu galluogi i brynu cynhyrchion fel llaeth babanod ac eitemau fel poteli dŵr poeth yn ogystal â nwyddau hanfodol eraill a oedd yn cefnogi lles, deiet iach ac urddas personol.

4.6 Roedd mentrau fel banciau babanod a banciau gwisg ysgol hefyd yn cael eu cefnogi, yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer mentrau a allai helpu teuluoedd i arbed arian ar fwyd drwy ychwanegu at eu gwybodaeth a'u sgiliau'n ymwneud â bwyd.

4.7 Roedd yn amlwg bod effaith anghymesur ar gymunedau, gyda'r rhai o gefndiroedd amrywiol yn aml yn mynychu banciau bwyd y tu allan i'w hardal eu hunain er mwyn osgoi stigma.

4.8 Roedd diffyg incwm cartref digonol yn sbardun allweddol ar gyfer tlodi bwyd ac roedd y Gronfa Cymorth Dewisol a chymorth ariannol arall gan yr Awdurdod Lleol yn hanfodol i roi rhywfaint o seibiant i bobl ac i sicrhau bod ganddynt ddewisiadau ac yn gallu cynnal eu hurddas personol. Roedd yr ymrwymiad i gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim yn yr hydref yn gam i'w groesawu gan Lywodraeth Cymru.

4.9 Awgrymwyd bod cyrraedd unigolion agored i niwed yn allweddol, a bod Cynghorau Tref a Chymuned yn chwarae rhan hanfodol gyda'u cysylltiadau yn y cymunedau lleol. Byddent hefyd yn helpu i wneud cysylltiadau gyda deiliaid rhandiroedd a allai fod yn barod i roi unrhyw gynnyrch gormodol sydd ganddyn nhw ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

4.10 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £15 miliwn ers 2019 i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i fynd i'r afael â thlodi bwyd a darparu ystod ehangach o wasanaethau i helpu unigolion ac aelwydydd i gynyddu eu hincwm a meithrin cadernid ariannol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.11 Roedd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar ei chamau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd drwy ganolbwyntio adnoddau ychwanegol ar atal achosion, cynaliadwyedd a gwytnwch.

4.12 I'r perwyl hwn, sefydlwyd partneriaethau bwyd traws-sector ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd yr arian hefyd yn cefnogi cydlynu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â bwyd, gan ddefnyddio cymorth ac arbenigedd gan wasanaethau eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, cymdeithasau tai Cymru a gwasanaethau cynghori, i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y prosiectau mor effeithiol â phosibl.

4.13 Yn ogystal, roedd gwaith yn parhau ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol i ddod â'r gwahanol opsiynau cyflenwi at ei gilydd ac roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn Adroddiad Sefydliad Bevan ar Fudd-daliadau yng Nghymru, a gyhoeddwyd y mis blaenorol.

4.14 Diolchodd yr Is-bwyllgor i'r holl bartneriaid am eu hadborth.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Mai 2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-15-mai-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.